ATODLEN >1

Symiau sydd i'w diystyru wrth gyfrifo incwm

# RHAN >1

## Symiau sydd i'w diystyru

**33.**—(1) Unrhyw fudd-dal plant, ac eithrio mewn amgylchiadau pan fo'r plentyn neu'r person ifanc cymwys y mae'r budd-dal plant yn daladwy mewn cysylltiad ag ef gydag A, a llety wedi ei ddarparu neu ei sicrhau ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc cymwys hwnnw yn unol â'r Ddeddf.

(2) Yn y paragraff hwn, mae i "plentyn" a "person ifanc cymwys", yn eu trefn, yr ystyron a roddir i "child" a "qualifying young person" yn adran 142 o Ddeddf 1992.